# JONES, THOMAS ('Y Bardd Cloff'; 1768 - 1828), bardd

**Enw:** Thomas Jones
**Ffugenw:** Y Bardd Cloff
**Dyddiad geni:** 1768
**Dyddiad marw:** 1828
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** Ray Looker

Ganwyd, y mae'n debyg, yn Llandysilio, sir Ddinbych. Aeth i Lundain yn 12 mlwydd oed i weithio yng nghyfrifdy g r o'r enw Mathew Davies, yn Long Acre. Ymddiddorai lawer mewn llenyddiaeth, ac yn enwedig mewn barddoniaeth Gymraeg. Yn 1789 etholwyd ef yn aelod o Gymdeithas y Gwyneddigion, ac yn fuan wedi hynny yn gofiadur y gymdeithas. Cyhoeddwyd ei awdl i'r gymdeithas yn 1799, ei 'Awdl ar Ddydd Gwyl Dewi Sant' yn 1802, a chasgliad o'i farddoniaeth yn 1828. Cafodd holl ofal masnach swyddfa ei feistr yn 1803, ac yn 1813 daeth yn gyfrannog ag ef. Etholwyd ef yn drysorydd Cymdeithas y Cymmrodorion pan atgyfodwyd honno yn 1820, ac enillodd fathodyn aur am y bryddest orau ar yr un achlysur. Gwnaethpwyd ef yn llywydd Cymdeithas y Gwyneddigion yn 1821 am y drydedd waith, ac yng ngwledd ei jiwbili hi, anrhegwyd ef â bathodyn arian y gymdeithas. Yr oedd yn fardd eisteddfodol, ac enillodd amryw wobrwyon mewn gwahanol eisteddfodau a gynhelid yng Nghymru. Pan fu farw, 19 Chwefror 1828, cynigiodd y Cymmrodorion fathodyn arian am yr awdl orau a gyfansoddid iddo, ac fe'i henillwyd gan Robert Davies ('Bardd Nantglyn').

## Awdur

**Ray Looker**

## Ffynonellau


T. Jones, *At Gymdeithas y Gwyneddigion yr awdl hon i'ch Gwledd Flunyddawl* (Llundain 1799)

T. Jones, *Awdl ar Ddydd Gwyl Dewi Sant* (1802)

T. Jones, *Barddoniaeth, sef Awdlau, Cerddi, ac Englynion* (Lerpwl 1828)

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

H. Ellis Hughes, *Eminent Men of Denbighshire. Their contribution to the story of Denbigshire and of Wales* (Lerpwl 1946), 185

Leathart, *Origin and Progress of the Gwyneddigion Society of London* (London 1831), 23, 73

*Notable Welshmen (1700–1900)* (1908)


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Thomas Jones (Y Bardd Cloff)

## Gweithiau

William Thomas, Ysgweier Morgan o Sir Aberteifi,' *Yr awen lawen; sef, Casgliad o ganiadau dewisol* (Caerfyrddin 1851), tt.5-6

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 9712575

Wikidata: Q18672558

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953


**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu